Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Dyffryn Trannon
Trefeglwys
Y Drenewydd
Powys
SY17 5PH

10/06/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mai 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Dyffryn Trannon yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad ag arweinwyr, disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella medrau a chodi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus. Maent wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i staff er mwyn cysoni'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws yr ysgol.

- Mae athrawon yn darparu gweithgareddau bwriadus sy'n datblygu'r medrau hyn yn adeiladol dros amser, fel yn ystod y sesiynau 'camau bach'. Mae hyn yn rhoi sail gadarn i ddisgyblion wella eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws ystod o ffurfiau.

- Mae athrawon wedi datblygu strategaethau penodol i hyrwyddo datblygiad llythrennedd yn effeithiol. Mae disgyblion yn gwerthuso genres amrywiol yn

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

hyderus ac yn defnyddio eu dealltwriaeth i ysgrifennu darnau estynedig yn annibynnol dros amser.

- Mae staff yn cydweithio'n fwriadus i ddarparu cyfleoedd sy'n adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae hyn yn cefnogi, ennyn a chynnal diddordeb disgyblion a'u parodrwydd i ymgymryd â thasgau ysgrifennu mewn cyd-destunau dilys ar draws y cwricwlwm.
- Mae athrawon yn darparu adborth gwerthfawr ac adeiladol i ddisgyblion. Mae hyn yn rhoi arweiniad clir iddynt ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith a gwella eu medrau ysgrifennu estynedig.

## Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ar draws yr ysgol gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws ystod o gyd-destunau cyfoethog.
- Mae arweinwyr a staff yn darparu strwythur effeithiol ar gyfer addysgu mathemateg ar draws yr ystod oedran. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar addysgeg effeithiol a sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth. Mae hyn, yn ei dro, yn hyrwyddo medrau mathemateg disgyblion ynghyd â'u hyder i gymhwyso'u medrau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd byd go iawn.
- Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion gymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau difyr. Ceir cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau rhif yn annibynnol ac maent yn datblygu eu gallu i ymateb i heriau syml o fewn yr ardaloedd dysgu.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ystyried ac ymateb i adborth er mwyn symud eu dysgu ymlaen.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6662044

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol